Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ellen ap Gwynn
ERW
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

12 Mehefin 2019

Annwyl Ellen ap Gwynn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Mehefin, a oedd yn cynnig diweddariad ar sefyllfa ERW, fel y gofynnwyd.

Rwy'n falch i glywed am y cynnydd gyda threfniadau staffio a threfniadau ariannol, gan gydnabod ar yr un pryd nid aethpwyd i'r afael yn llawn â'r naill na'r llall.

Hoffai Jassa Scott, Clive Phillips a Mark Campion ymweld ag ERW i weld y cynnydd mewn mwy o fanylder, ac i geisio sicrwydd ynghylch y ffordd ymlaen. Hoffant ymweld ar 24-25 Mehefin a chyfarfod â'r canlynol:

- chi, fel cadeirydd y cydbwyllgor
- o leiaf dau aelod arall o'r cydbwyllgor
- y prif weithredwr arweiniol
- y prif gyfarwyddwr addysg
- o leiaf dau gyfarwyddwr awdurdod lleol arall (yn ddelfrydol byddem yn cwrdd â phob cyfarwyddwr arall)
- rheolwr-gyfarwyddwr ERW
- cadeirydd y grŵp craffu (gyda gwahoddiad i gynifer o bobl eraill o'r grŵp i ymuno hefyd)
- 3 neu 4 aelod o fwrdd cynrychioliadol penaethiaid ERW

Yn dilyn y cyfarfodydd, hoffai Jassa, Clive a Mark ddarparu adborth ar lafar i chi ac unrhyw uwch arweinwyr eraill y dymunwch eu cynnwys. Ni fydd adroddiad cyhoeddedig o'r ymweliad.

Bydd angen i'r cyfarfodydd gael eu trefnu am awr yr un rhwng 1 y prynhawn – 5 y prynhawn ar 24 Mehefin neu 9 y bore - 12 y prynhawn ar 25 Mehefin. Bydd Mark Campion yn cysylltu â Geraint Rees cyn diwedd yr wythnos i drafod ac i gwblhau'r trefniadau.

Yn gywir

Meilyr Rowlands

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ellen ap Gwynn
ERW
Y Llwyfan
College Road
Carmarthen
SA31 3EQ

12 June 2019

Dear Ellen ap Gwynn

Thank you for your letter dated 4 June, providing an update on ERW's position as requested.

I'm pleased to hear about progress with staffing and financial arrangements, while recognising that neither are fully addressed at this stage.

Jassa Scott, Clive Phillips, Mark Campion would like to visit ERW to explore progress in more detail and seek assurance about the way forward. They would like to visit on 24-25 June and would like meetings with the following:

- you, as chair of the joint committee
- at least two other members of the joint committee
- the lead chief executive
- the lead education director
- at least two other local authority directors (ideally we would meet all other directors)
- ERW's managing director
- the chair of the scrutiny group (with an invitation for as many others of the scrutiny group to join as well)
- 3 or 4 members of ERW's headteacher representative board
- 

Following the meetings, Jassa, Clive and Mark would like to provide verbal feedback to you and any other senior leaders who you would like to include. There will not be a published report from the visit.

The meetings will need to be scheduled for an hour each between 1pm – 5pm on 24 June or 9am – 12pm on 25 June. Mark Campion will be in touch with Geraint Rees before the end of the week to discuss and finalise the arrangements.

Yours sincerely

Meilyr Rowlands

**Meilyr Rowlands**
Her Majesty's Chief Inspector of
Education and Training in Wales